**Adroddiad ar**

# Presteigne Little People

**Ysgol Gynradd Llanandras**
**Slough Road**
**Llanandras**
**Powys**
**LD8 2NH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Presteigne Little People

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Presteigne Little People |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ann Wake |
| Person â chyfrifoldeb | Joanne Griffiths, Rebecca Morris |
| Nifer y lleoedd | 48 |
| Ystod oedran y plant | 0–12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 32 |
| Nifer y plant sy'n derbyn cyllid ar gyfer addysg gynnar | 32 |
| Diwrnodau/amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 7.30am – 6.30pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg |
| A yw'r lleoliad hwn yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan AGC | 9.2.2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn | 6.8.2013 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 14.6.2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Gwnaethom hysbysu'r darparwr am Faes i'w Wella lle nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Ni roddwyd hysbysiad, ond mae hwn wedi'i nodi fel Maes i'w Wella, a rhaid i'r unigolyn cyfrifol fynd i'r afael â hyn.

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn ystod yr arolygiad nesaf gan AGC. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Yn ogystal, nodwyd diffyg cydymffurfio gennym mewn perthynas â Gofal a Datblygiad ac rydym wedi cyflwyno Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y plant, a/neu risg i lesiant y plant, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r rhain a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Mae gwybodaeth am yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi’i chynnwys yn yr Adroddiad Cryno ar Gamau Gweithredu a Gwella, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Gwella sgiliau Cymraeg a rhifedd y plant

A2 Datblygu asesiad risgiau tân sy’n benodol i’r lleoliad a sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cwblhau ar wahân i'r ysgol

A3 Sicrhau bod arweinwyr a staff yn deall yn llawn eu polisi a’u gweithdrefnau diogelu ac yn gallu eu rhoi ar waith

A4 Gwneud defnydd effeithiol o arsylwi ac asesu i lywio cynllunio ac i sicrhau bod profiadau dysgu yn diwallu anghenion pob plentyn

A5 Cryfhau strwythurau arweinyddiaeth i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rolau'n llawn ac yn effeithiol

A6 Mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Estyn a Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru o’r farn bod angen gwelliant â ffocws mewn perthynas â’r lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn ac AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae. Maent yn symud yn hyderus rhwng gweithgareddau ac ardaloedd. Er enghraifft, am rannau helaeth o'r dydd, gall y plant symud rhwng ardaloedd mewnol ac allanol y lleoliad fel y dymunant. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynegi eu barn yn glir mewn modd sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r plant ifanc yn defnyddio arwyddion dieiriau fel pwyntio at y pwll tywod pan fyddant am chwarae ag ef, gan wybod y bydd yr ymarferwyr yn ymateb i'w cais i dynnu'r caead. Mae'r plant hŷn yn siarad yn rhwydd ac yn hyderus â'i gilydd a'r ymarferwyr yn ystod eu chwarae ac amser bwyd. Mae'r plant yn y clwb ar ôl yr ysgol yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol i lunio gemau chwarae rôl cymhleth, gan ddatblygu eu syniadau eu hunain a chynnwys plant iau yn eu chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymdopi'n dda iawn wrth iddynt wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn ffurfio cysylltiadau agos gyda'r ymarferwyr, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Ychydig iawn o'r plant sy'n cael trafferth wrth ymgartrefu pan fyddant yn cyrraedd gyntaf. Maent yn derbyn cysur tawel a thyner gan yr ymarferwyr, ac yn ymgartrefu'n gyflym iawn o ganlyniad. Mae'r plant yn mynegi eu teimladau ac yn gwybod y gallant siarad ag ymarferwyr os ydynt yn bryderus. Er enghraifft, maent yn dangos eu bod yn drist os yw eu hoff degan ar goll neu wrth ddweud wrth ymarferwyr pa fath o ddiwrnod y maent wedi'i gael yn yr ysgol. Mae hyn yn datblygu hyder a hunan-barch y plant yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda. Mae'r plant iau yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd yn y pwll tywod. Maent yn dysgu sut i ddilyn rheolau a dangos parch i bobl eraill wrth i'r ymarferwyr eu hatgoffa'n dyner i beidio â thaflu tywod rhag ofn iddo fynd i lygaid rhywun arall. Mae'r rhan fwyaf o'r plant hŷn yn chwarae'n dda gyda'i gilydd, a chaiff mân anghytundebau eu datrys yn gyflym ac yn hawdd. Mae'r plant yn dangos gwytnwch gan eu bod yn cael eu cefnogi'n dda i wella'n gyflym ar ôl mân drafferthion.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu chwarae. Maent yn cymryd rhan yn dda yn y gweithgareddau y maent yn eu dewis ac yn cynnal diddordeb am gyfnodau priodol o amser. Mae'r plant yn chwarae gemau parasiwt gyda'r ymarferwyr, yn dringo a siglo ar y ffrâm ddringo, ac yn datrys pam mae lindysyn sy'n gallu cael ei reoli'n symud yn araf.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu ym mhob maes ac yn elwa o'r ystod eang o adnoddau a gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain am gyfnodau estynedig ac, o ganlyniad, yn datblygu hyder wrth wneud dewisiadau. Nid ydynt yn cael cymaint o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u targedu'n fwy sy'n ystyried y camau nesaf ac felly nid ydynt yn datblygu cystal ag y gallent mewn rhai meysydd. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth a sgiliau hunangymorth. Maent yn golchi eu dwylo'n annibynnol ac mae'r plant hŷn yn dod o hyd i'w bachau er mwyn hongian eu cotiau a'u bagiau. Mae'r plant yn clirio'r platiau ar ôl cael byrbryd ond nid ydynt yn arllwys eu

diodydd eu hunain, yn helpu eu hunain i fwyd nac yn rhoi menyn ar eu tost eu hunain.

**Dysgu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u hoed a'u gallu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae sgiliau cyfathrebu a llythrennedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn gwneud eu hunain yn ddealladwy ac yn hapus i siarad ac ymgysylltu â'r ymarferwyr a'u ffrindiau am y pethau sy'n bwysig iddynt, er enghraifft y pethau maent yn eu gwneud gartref gyda'u teuluoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd ac yn defnyddio iaith briodol yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae yn y siop hufen iâ, maent yn cymryd rolau fel siopwr a chwsmer yn llwyddiannus. Mae rhai o'r plant yn defnyddio eu sgiliau gwneud marciau i gymryd archebion ar gyfer yr hufen iâ ac yn dechrau ysgrifennu rhai llythrennau yn eu henwau eu hunain y gellir eu deall. Mae rhai o'r plant yn dechrau sylweddoli bod ystyr gan farciau a symbolau. Maent yn dechrau dilyn cyfarwyddiadau darluniadol i wneud smwddis a chacennau yn y gegin fwd. Mae llawer o'r plant yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Mae rhai yn trin llyfrau yn annibynnol ac yn dangos diddordeb ym manylder y lluniau, er enghraifft wrth ddarllen llyfrau am gestyll yn yr ardal chwarae â blociau. Mae llawer o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain ar eu bachau cot wrth hongian eu bagiau ar ddechrau'r sesiwn. Mae ychydig o'r plant yn dechrau adnabod enwau eu ffrindiau, a bod gan rai o enwau eu ffrindiau'r un llythyren gychwynnol â nhw.

Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau mathemategol addas ac yn dechrau defnyddio iaith fathemategol yn eu chwarae. Maent yn defnyddio termau megis llawn a gwag wrth gasglu pridd i wneud bwyd ci yn y gegin fwd ac yn cyfrif nifer y sgwpiau sydd eu hangen. Mae ychydig o'r plant yn dechrau adnabod a threfnu siapiau. Mae rhai o'r plant yn cyfrif i bedwar yn gywir wrth ddewis eu ffrwythau amser byrbryd neu wrth gasglu adnoddau naturiol i wneud ffon hud. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfleoedd sydd ar gael i'r plant ymuno yn y caneuon a rhigymau neu ddefnyddio eu sgiliau mathemategol i ddatrys problemau ymarferol. O ganlyniad, nid yw'r plant bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent.

Mae sgiliau corfforol bron pob un o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn hyderus wrth gymryd risgiau priodol yn yr awyr agored, gan ddringo ar offer chwarae mawr a chydbwyso ar wreiddiau coed. Mae ychydig o'r plant yn gallu cadw peth rheolaeth wrth gicio pêl ac yn dechrau taflu a dal pêl-droed yn llwyddiannus wrth chwarae gyda ffrindiau. Maent yn defnyddio eu sgiliau echddygol manwl yn effeithiol. Mae ychydig o'r plant yn dechrau cau stydiau ar ddillad babanod wrth wisgo doliau yn y gornel gartref ac yn gwasgu, pinsio a rholio toes chwarae i wneud hufen iâ.

Mae bron pob un o'r plant yn chwarae'n hapus ac yn bwrpasol am gyfnodau estynedig o amser. Maent yn dewis deunyddiau ac adnoddau i wella eu chwarae. Mae llawer o'r plant yn dyfalbarhau i gwblhau tasgau, fel cydweithio i wneud ffordd i gerbydau deithio ar ei hyd wrth chwarae yn yr ardal adeiladu yn yr awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau sy'n datblygu eu sgiliau creadigol. Maent yn tynnu lluniau'n hyderus, gan wneud lluniau sy'n hawdd eu hadnabod, ac yn gallu egluro eu gwaith. Maent yn mynegi eu hunain yn greadigol

trwy weithgareddau chwarae rôl sy'n eu hannog i ddewis o ystod o adnoddau, megis microffonau a dillad gwisgo i fyny, i wella eu perfformiadau.

Mae ychydig o'r plant yn defnyddio’r Gymraeg i ofyn am blât lliw neu laeth a dŵr amser byrbryd. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfleoedd sydd i'r plant ymuno â chaneuon a rhigymau Cymraeg neu ddefnyddio Cymraeg achlysurol trwy gydol y sesiwn. O ganlyniad, nid yw sgiliau Cymraeg y plant yn datblygu'n ddigon da.

**Gofal a datblygiad:**

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac maent yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r rhan fwyaf wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac maent yn peri pryder. Mae hyn oherwydd nad yw'r arweinwyr a'r staff yn hyderus o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai honiad yn erbyn oedolyn yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gan eu bod yn cynnal ymarferion gadael mewn argyfwng rheolaidd gyda'r plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn eu cynnal ar wahân i'r ysgol ac nid oes ganddynt asesiad risg tân penodol ar gyfer y lleoliad.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid da yn gyson gan eu bod yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, dilyn gweithdrefnau newid clytiau priodol a sicrhau eu bod yn glanhau byrddau cyn byrbrydau a phrydau bwyd. Mae’r rhan fwyaf yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn goruchwylio'r plant yn briodol, gan ddilyn polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â damweiniau, digwyddiadau a rhoi meddyginiaeth. Maent wedi datblygu trefniadau arferol i sicrhau bod y plant yn cael digon o awyr iach. Mae'r byrbrydau a phrydau bwyd yn iach ac yn faethlon. Fodd bynnag, nid oes ganddynt system ar waith i lunio cynlluniau gofal ar gyfer y plant ag anghenion iechyd penodol. Mae hyn yn golygu nad yw’r wybodaeth angenrheidiol bob amser yn cael ei chofnodi’n gadarn nac ar gael yn rhwydd, gan greu'r posibilrwydd o ddiffyg gwybodaeth gan yr ymarferwyr am sut i reoli neu ymateb i anghenion y plant.

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol iawn. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn modd cynnes a chyfeillgar, gan greu awyrgylch tawel a hamddenol. Mae polisi rheoli ymddygiad da ar waith sy'n cael ei ddilyn yn gyson gan yr ymarferwyr. Maent yn canmol y plant am ymddygiad da ac yn defnyddio technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol megis dulliau tynnu sylw ac esboniadau yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol i'r plant ac maent yn creu amgylchedd sy'n meithrin a hybu hunan-barch y plant.

Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r plant. Maent yn ymatebol i'r plant a'u chwarae ac yn manteisio ar gyfleoedd i ofyn cwestiynau penagored sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r ymarferwyr yn darparu llawer o gyfleoedd dysgu trwy'r amgylchedd, y ddarpariaeth barhaus a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio. Mae ganddynt systemau i olrhain datblygiad y plant. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn ystyried yr hyn y mae'r staff am i'r plant ei ddysgu nesaf nac yn ystyried camau nesaf unigol. Nid yw'r ymarferwyr yn rhoi cynlluniau unigol ar waith i gefnogi'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd digonol ym mhob maes dysgu a datblygu.

**Addysgu ac asesu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae gan bron bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o ddatblygiad y plant. Maent yn datblygu eu gwybodaeth am y cwricwlwm a gwerth chwarae. Yn ddiweddar, mae'r ymarferwyr wedi mabwysiadu dull mwy ymatebol o gynllunio, sydd yn ei ddyddiau cynnar o gael ei ddatblygu. Maent yn darparu amgylchedd addas sy'n ennyn diddordeb y plant ac yn eu hannog i chwarae gyda'i gilydd. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd i blant gael cyfnodau estynedig o chwarae'n ddi-dor, sy'n eu cefnogi i ddod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd eu hunain. Mae'r oedolion yn ymyrryd pan fo'n briodol i ychwanegu adnoddau i ymestyn a chyfoethogi chwarae'r plant. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ffocws digon clir bob amser ar sut y gallant ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y plant.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau iaith yn dda trwy eu rhyngweithio a'u cwestiynau. Maent yn cynllunio ystod dda o gyfleoedd buddiol i'r plant ddefnyddio eu sgiliau gwneud marciau yn eu chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd archebion am hufen iâ yn y parlwr hufen iâ. Maent yn cefnogi'r plant i ddatblygu gwytnwch, annibyniaeth a hyder yn briodol, er enghraifft trwy eu hannog i fentro'n ofalus a herio eu hunain yn gorfforol ar offer chwarae mawr. Maent yn darparu profiadau addas i ddatblygu sgiliau rhifedd y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu profiadau dysgu sy'n ddigon heriol nac yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mathemategol dros amser.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i feithrin ymdeimlad o syndod a rhyfeddod trwy eu hymweliadau ag ardal goedwig yr ysgol a thir yr ysgol. Maent yn annog y plant i ofalu am bethau byw y maent yn eu darganfod wrth chwarae. Er enghraifft, wrth iddynt ddod o hyd i bryfed, maent yn awgrymu eu rhoi mewn dalwyr pryfed fel y gall y plant eraill eu harsylwi'n ddiogel.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'u hamgylchedd lleol i roi ymdeimlad o berthyn i'r plant a meithrin chwilfrydedd am eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Maent yn ymweld â thirnodau lleol a mannau o ddiddordeb o fewn y dref, megis yr eglwys leol a'r ganolfan ailgylchu.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod briodol o weithgareddau a dathliadau sy'n helpu'r plant i ddysgu am Gymru a gwledydd eraill. Maent yn cynllunio cyfleoedd i'r plant ddysgu am wyliau a digwyddiadau diwylliannol, megis Jiwbilî Platinwm y Frenhines, Dydd Gŵyl Dewi a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon da yn eu rhyngweithio â'r plant ac nid ydynt yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg y plant. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg cyfarwydd yn eu chwarae a'u rhyngweithiadau.

At ei gilydd, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu yn ddigon da i ddiwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r profiadau dysgu yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol y plant yn systematig i'w galluogi i wneud cynnydd yn eu dysgu a'u datblygiad. Nid yw'r asesiadau ac arsylwadau yn hysbysu'r ymarferwyr yn ddigon da am ddiddordebau'r plant na'u camau nesaf mewn dysgu.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel. Mae'r adeilad yn ddiogel iawn gyda threfniadau da ar gyfer sicrhau na all y plant adael y lleoliad heb oruchwyliaeth. Mae'r ymarferwyr yn dangos ymwybyddiaeth dda o faterion diogelwch perthnasol, gan gwblhau gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd, yr amserlenni glanhau a thymheredd yr oergell. Mae pob rhan o'r lleoliad yn lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a chaiff mannau megis dolenni drysau a thoiledau eu glanhau'n rheolaidd trwy gydol y dydd. Mae'r arweinwyr yn cynnal asesiadau risg cynhwysfawr ac mae'r staff yn llofnodi i gydnabod eu bod wedi ailddarllen y rhain yn flynyddol.

Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn olau gyda digonedd o olau naturiol. Mae'r ddwy ystafell i blant wedi'u trefnu mewn modd sy'n rhoi digon o le i'r plant symud o gwmpas a chwarae'n rhydd. Mae gwaith y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol o gwmpas yr ystafelloedd gyda'u sylwadau. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi datblygu’r ardaloedd er mwyn i'r plant gael mynediad hawdd ac annibynnol at ystod eang o deganau ac adnoddau diddorol sy’n briodol i’w datblygiad. Mae'r plant yn elwa ar yr ardaloedd i orffwys, ymlacio a chael amser tawel yn ogystal ag ardaloedd i chwarae, archwilio a bod yn egnïol. Mae gan y ddwy ystafell fynediad i'w mannau chwarae awyr agored eu hunain, sydd yr un mor ysgogol ac sydd ag adnoddau da. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn dda a gall y plant eu cyrchu'n rhwydd am rannau helaeth o'r dydd. Mae'r ymarferwyr hefyd yn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd da o dir estynedig yr ysgol i wella profiadau'r plant ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn, teganau ac adnoddau o ansawdd da, ac mae rhai ohonynt yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac yn cynnwys llyfrau Cymraeg. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau a’r offer yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd i'r plant sy’n cefnogi llawer o’u hanghenion dysgu a datblygu.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir bod yr holl blant yn unigolion hapus a hyderus sy'n mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maent yn gosod ethos cadarnhaol lle mae'r plant yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cymryd rhan flaengar yn y gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd ac yn cefnogi'r arweinwyr yn dda.

Mae gan yr ymarferwyr swydd-ddisgrifiadau diweddar ac mae eu rolau a'u cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Fodd bynnag, mae angen i'r arweinwyr sicrhau bod digon o ymarferwyr sydd â’r cymwysterau a phrofiad perthnasol a phriodol o weithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol a’u bod yn cael eu defnyddio’n briodol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ystod addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Mae datganiad o ddiben clir sy'n darparu darlun manwl gywir o'r lleoliad. Mae’r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae'r arweinwyr yn ystyried p’un a yw pryderon a chwynion yn cael y sylw priodol. Mae gan yr arweinwyr system effeithiol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu'r ymarferwyr sy'n arwain at dargedau cytunedig. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gweithio'n dda ac yn

cadw at bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac mae trefniadau addas ar waith ar gyfer seibiannau ac absenoldebau'r staff.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n addas gyda rhieni a gofalwyr i wella llesiant eu plentyn o ddydd i ddydd ac maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr plant iau am ofal, datblygiad a chynnydd eu plentyn. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer hysbysu rhieni a gofalwyr plant hŷn am lesiant a dysgu eu plentyn wedi'u sefydlu cystal. O ganlyniad, nid yw rhieni a gofalwyr bob amser yn gwybod pa mor dda y mae eu plentyn yn ei wneud na sut y gallant ei gefnogi orau.

Mae'r prosesau hunanwerthuso yn nodi'n glir y meysydd i'w gwella. Mae'r arweinwyr yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithredu yn briodol ac mae ganddynt brosesau myfyriol sy'n eu helpu i wybod beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella. Mae'r arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddyledus i gyngor gan asiantaethau allanol, fel athro ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, ac yn gweithredu'r newidiadau y maent yn eu hawgrymu. Fodd bynnag, oherwydd materion staffio yn y lleoliad, nid yw'n bosibl i weithredu'r newidiadau hyn bob amser nac i gwblhau'r ystod lawn o dasgau sydd eu hangen i sicrhau y gwneir gwelliannau.

Gwneir defnydd effeithiol o'r grantiau sydd ar gael. Er enghraifft, mae'r arweinwyr yn trefnu dodrefn ac adnoddau newydd i wella'r ardaloedd mewnol ac allanol i greu amgylchedd sy'n olau ac yn dawel. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant ac ymddygiad y plant. Mae'r lleoliad wedi'i leoli yn yr ysgol gynradd leol ac mae'r arweinwyr yn datblygu'r cydberthynas hwn trwy ddarparu ystod fuddiol o weithgareddau pontio. Mae hyn yn galluogi'r plant i symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg yn esmwyth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/8/2022

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 24 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â rhoi system ar waith i sicrhau ei bod yn cefnogi'r plant ag anghenion iechyd neu anableddau penodol yn ddigonol. Rhaid iddi roi system ar waith i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion iechyd neu anableddau'r plant yn llawn a sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi i ddeall sut i'w defnyddio. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â sicrhau bod y staff yn llunio cynlluniau i gefnogi anghenion dysgu unigol neu ychwanegol rhai plant a'u gweithredu. Rhaid iddi sicrhau bod gan y staff yr wybodaeth a'r profiad i gynllunio ar gyfer plant perthnasol mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i wneud cynnydd yn eu dysgu a'u datblygiad a'u bod yn cynnwys rhieni yn y gwaith cynllunio hwn. | Newydd |
| 31 | Nid yw'r darparwr wedi hysbysu AGC am sefyllfa ddiogelu ddiweddar nac am newidiadau diweddar i'r staff. Rhaid i'r darparwr sicrhau ei fod yn hysbysu AGC am y materion a nodir yn y rheoliadau mewn modd amserol. | Cyflawnwyd |
| 30 | Nid yw'r cofrestri staff yn cynnwys yr unigolyn cyfrifol ac felly nid ydynt yn cofnodi'r adegau pryd mae hi'n gofalu am y plant. Nid ydynt ychwaith yn cofnodi pryd mae'r staff gofal yn cymryd seibiannau na phwy sy'ncymryd eu lle. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod cofrestri'n adlewyrchu pa oedolion sy'n gofalu am y plant bob amser. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 16 Awst 2022

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

**Estyn**
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Presteigne Little People
Presteigne C.P. School
Slough Road
Presteigne
Powys
LD8 2NH

17 Tachwedd 2022

**Presteigne Little People**

**Aros yn y categori Gwelliant â Ffocws**

Yn sgil ymweliad yr arolygiad dilynol ar 13 Hydref 2022, bernir bod y lleoliad wedi gwneud cynnydd annigonol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad ar y cyd yn 14 – 15 Mehefin 2022. O ganlyniad, bydd y lleoliad yn aros yn y categori Gwelliant â Ffocws.

Yn gywir

**Kevin Barker**
Pennaeth Gofal Plant a Chwarae
Arolygiaeth Gofal Cymru

**Jonathan Cooper**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Estyn

AGC/CIW, Swyddfa'r Llywodraeth/Welsh Government office,
Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno/Llandudno Junction, Conwy, LL31 9RZ
Ffôn/Telephone 0300 7900 126
agc@llyw.cymru • ciw@gov.wales
www.careinspectorate.wales
********
Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â rhoi system ar waith i sicrhau cymorth digonol i blant ag anghenion iechyd neu anableddau penodol. Rhaid i'r unigolyn roi system ar waith i sicrhau ei fod yn darparu'n llawn ar gyfer anghenion iechyd neu anableddau plant ac i sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i ddeall sut i'w defnyddio. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 20 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â sicrhau bod y staff yn llunio ac yn gweithredu cynlluniau i ddiwallu anghenion dysgu unigol neu ychwanegol rhai o'r plant. Rhaid iddo sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r profiad i gynllunio ar gyfer plant perthnasol mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i wneud cynnydd wrth ddysgu a datblygu a'u bod yn cynnwys y rhieni yn y gwaith cynllunio hwn. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17 Tachwedd 2022

**Adroddiad yn dilyn gwaith monitro**

**Lefel y gwaith dilynol: Gwelliannau â phwyslais penodol ar y cyd**

**Presteigne Little People**

**Ysgol Gynradd Llanandras**
**Slough Road**
**Llanandras**
**Powys**
**LD8 2NH**

**Dyddiad yr ymweliad:**
**Mawrth 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Ystyrir bod y lleoliad wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf ac mae AGC yn fodlon, o ganlyniad i'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r achos o ddiffyg cydymffurfio, bod y lleoliad yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r lleoliad oddi ar y rhestr o leoliadau y mae angen iddynt wneud gwelliannau â phwyslais penodol, ac mae AGC yn dod â’i phroses gydymffurfio i ben.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella sgiliau Cymraeg a rhifedd y plant

Yn dilyn yr arolygiad ar y cyd, canolbwyntiodd yr ymarferwyr ar wella sgiliau Cymraeg a sgiliau rhifedd y plant ac mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhelliad. Mae bron pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant Cymraeg, sy'n eu helpu i ddefnyddio ymadroddion, geirfa a chaneuon syml yn hyderus. Mae'r lleoliad wedi recriwtio gwirfoddolwr sy’n siarad Cymraeg, sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu sgiliau Cymraeg y plant ymhellach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio geiriau a chyfarchion syml drwy gydol y sesiwn. Maent yn mwynhau canu ac ymuno mewn amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg ac maent yn dechrau enwi lliwiau a chyfrif i 10 yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio ac adnabod geirfa i ddisgrifio'r tywydd. Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddisgrifio eu hemosiynau yn Gymraeg wrth edrych ar ffotograffau ohonynt eu hunain a rhannu'r ffotograffau hynny.

Mae'r lleoliad yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu eu sgiliau rhifedd. Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith fathemategol yn dda wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant. Maent yn trafod hyd eu modelau, yn cyfrif y nifer o frics sydd eu hangen, yn enwi lliwiau a siapiau. Mae’r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau cyffrous a gwerthfawr sy’n datblygu sgiliau rhifedd y plant drwy eu chwarae. Er enghraifft, wrth fynd ar helfa am ddreigiau mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o adnoddau er mwyn annog y plant i fesur y ddraig a dechrau adnabod rhifolion hyd at 10.

### A2. Datblygu asesiad risg tân sy’n benodol i’r lleoliad a sicrhau bod rhai ymarferion gwagio'r adeilad yn cael eu cynnal yn annibynnol ar yr ysgol

Mae'r arweinwyr wedi datblygu asesiad risg tân cynhwysfawr sy’n benodol i’r lleoliad ac ar wahân i’r ysgol. Maent wedi cynnal pedwar ymarfer gwagio'r adeilad ers yr arolygiad diwethaf gan gynnwys un yn ystod y clwb ar ôl ysgol ac un yn ystod y clwb gwyliau. Mae'r arweinwyr wedi cadw cofnodion da o'r ymarferion sy'n cynnwys digon o fanylion i nodi a oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau i wella.

### A3. Sicrhau bod yr arweinwyr a'r staff yn deall y polisi a'r gweithdrefnau diogelu yn llawn ac yn gallu eu rhoi ar waith

Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau amlwg i sicrhau bod y staff yn deall polisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn llawn. Mae'r arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu drwy gyfarfodydd tîm rheolaidd. Maent yn hyderus ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai honiad yn erbyn oedolyn yn y lleoliad.

### A4. Gwneud defnydd effeithiol o arsylwi ac asesu i lywio'r gwaith cynllunio ac i sicrhau bod y profiadau dysgu yn diwallu anghenion pob plentyn

Ers yr arolygiad ar y cyd, bu newid o ran arweinydd y lleoliad. Mae'r arweinydd newydd wedi dechrau datblygu systemau buddiol yn y lleoliad i fonitro ac olrhain diddordebau a dysgu'r plant. Mae'r lleoliad wedi cyflwyno teithiau dysgu gwerthfawr ar gyfer pob plentyn er mwyn cofnodi'r hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r ymarferwyr yn cynnwys ffotograffau ac arsylwadau defnyddiol o'r dysgu a thystiolaeth o ryngweithio cymdeithasol. Mae'r ymarferwyr yn dechrau defnyddio'r cyfnodolion hyn i olrhain cynnydd ac i sicrhau eu bod yn ymdrin â holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ymarferwyr yn dewis grŵp bach o blant i gynnal sesiynau arsylwi manwl ar eu dysgu ac i nodi eu diddordebau a'r pethau sy'n ennyn eu chwilfrydedd. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth fuddiol hon i gynllunio ar gyfer profiadau pellach ac i gynllunio addasiadau i'r amgylchedd er mwyn dyfnhau ac ehangu dysgu'r plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant a'r ddarpariaeth gyffredinol yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad wedi gwella ei brosesau er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymarferwyr yn nodi anghenion dysgu ychwanegol y plant yn gynnar. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'r rhieni ac athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol i gynllunio trefniadau pontio llwyddiannus i'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gwneud arsylwadau gwerthfawr o'r plant er mwyn nodi sut maent yn gwneud cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd ar eu cyfer yn eu cynlluniau dysgu unigol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio eu camau nesaf.

### A5. Atgyfnerthu strwythurau arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cymorth i ymgymryd â'i rolau yn effeithiol

Mae llwyddiant y lleoliad i benodi dau ymarferydd i swyddi a oedd yn wag wedi helpu i atgyfnerthu'r arweinyddiaeth. Mae'r penodiadau hyn wedi galluogi'r Unigolyn Cyfrifol i gymryd cam yn ôl o ran rhedeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Er mwyn helpu i rannu'r llwyth gwaith, penodwyd unigolyn cyfrifol ychwanegol hefyd. Mae'r strwythur rheoli hwn wedi rhoi cyfle i'r lleoliad lunio strwythurau a systemau. Mae hyn yn helpu'r arweinwyr i rannu cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn galluogi'r ymarferwyr i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Pennwyd rolau a chyfrifoldebau clir i'r arweinwyr, sydd wedi arwain at welliannau sylweddol o ran arferion y lleoliad. Mae'r arweinwyr wedi datblygu cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer gwneud gwelliannau a chaiff y cynlluniau hynny eu rhannu'n effeithiol â'r ymarferwyr. Maent wedi datblygu canllawiau ymarfer effeithiol er mwyn helpu i hysbysu'r ymarferwyr am ddisgwyliadau o ran ymarfer yn y lleoliad. Mae'r canllawiau hyn yn helpu'r arweinwyr i sicrhau cysondeb ymarfer ac i rannu gwybodaeth yn gyson drwy'r lleoliad cyfan. Mae'r arweinwyr wedi creu cynlluniau wrth gefn manwl er mwyn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau staff yn y dyfodol yn cael effaith andwyol ar rediad y lleoliad.

### A6. Ymdrin â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau o ran y trefniadau ar gyfer cefnogi plant ag anghenion iechyd neu anableddau. Rhoddwyd cynlluniau gofal iechyd ar waith sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ac sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn casglu gwybodaeth gyfredol am y plant sy'n cael gofal ganddynt ac o ganlyniad, mae cynlluniau gofal manwl ar waith ac yn cael eu dilyn yn gyson gan yr ymarferwyr. Caiff gwybodaeth a meddyginiaeth eu cadw'n ddiogel ac maent yn hygyrch i'r ymarferwyr pan fo'u hangen. Mae'r arweinwyr wedi rhoi system gadarn ar waith er mwyn helpu i nodi cymorth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r lleoliad bellach yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad**